

Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



Wythnos yma

Bws Beic

Diolch i bawb wnaeth ymuno gyda ni heddiw ar gyfer Bws Beic olaf yr hanner tymor. Diolch i'r rhieni a'r staff sydd wedi cefnogi ac wedi gwirfoddoli gyda'r Bws Beic yn ystod yr hanner tymor. Diolch i Hamish o Sustrans am ei gefnogaeth. Edrychwn ymlaen at barhau'r Bws Beic ar ôl hanner tymor.

Dathlu Dysgu Blwyddyn 2

Roedd yn hyfryd wythnos yma i groesawu rhieni blwyddyn 2 i'r ysgol ar gyfer sesiwn Dathlu Dysgu'r dosbarth. Mae'r disgyblion yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi creu gemau bwrdd rhifedd. Yn ystod y sesiwn Dathlu Dysgu, cafodd y disgyblion gyfle i rannu'r gemau yma gyda'u rhieni. Edrychwn ymlaen yn fawr at fwynhau mwy o sesiynau Dathlu Dysgu yn ystod yr hanner tymor nesaf

Caniatâd Iluniau

Cofiwch fod angen rhoi caniatâd i'ch plentyn i fod ar gyfryngau cymdeithasol yr ysgol. Dyma'r linc ar gyfer cofrestru eich caniatâd.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k9DQYJBMcxRFhtaaP458n_ZURVIUSjRMR1I2M0IHVDk3WVVPUIVJVUg5RC4u

Os hoffech drafod ymhellach neu os oes gennych gwestiynau, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol.

Gwyliau hapus

Hanner tymor hapus i bawb! Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr hanner tymor ac edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu pawb nôl i'r ysgol ar ddydd Llun, y 3ydd o Fawrth.

Pob dymuniad da i Mrs Marged Miles-Farrier wrth iddi gychwyn ei chyfnod mamolaeth.

Calendr



6/03/25
Diwrnod y Llyfr

13/03/25
Dathlu Dydd
Gŵyl Dewi ac
Eisteddfod
Ysgol

Dyddiad cau ar gyfer cofrestru i'r dosbarth Meithrin Medi 2025

Os hoffech i'ch plentyn fynychu'r dosbarth Meithrin ym mis Medi 2025 cofiwch fod angen ymgeisio am le yn y dosbarth **cyn dydd Llun, y 24ain o Chwefror**. Dyma'r linc fydd angen arnoch chi i gofrestru.

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/meithrin/Pages/default.aspx>

Fe fyddwn yn cynnal diwrnod agored ar gyfer disgyblion Meithrin yn nhyrnor yr haf.

Ond cofiwch fod croeso i chi ymweld â'r ysgol unrhyw bryd.

Y Nyth

Sesiwn 'Galw Heibio' efo'r Nyrs Ysgol

Dydd Gwener, 7fed o Fawrth (9.00yb – 11.00yb)

Galwch heibio am gyngor cyfrinachol a chyfeillgar. Gall Anna, ein Nyrs Ysgol, gynnig cymorth a chefnogaeth ar gyfer ystod eang o bynciau, gan gynnwys:

- Lles emosiynol
- Gwlychu yn ystod y dydd a'r nos
- Baeddu
- Amser gwely
- Bwyta'n iach
- Ymddygiad
- Cydberthnasau

Pwysig: Cysylltwch â swyddfa'r ysgol i fwcio slot amser.

Fforwm Rhieni

*Grŵp ar gyfer rhieni, cyn rhieni, gofalmwr, neiniau, a theidiau plant sydd wedi cael diagnosis Awtistiaeth ac/neu ADHD, neu sydd yn y broses o dderbyn diagnosis (h.y. ar y llwybr asesu Niwroddatblygiadol).

Cwrdd â'r Tîm – cyfle i gwrdd ag Elen Derrick (Athrawes Arbenigol o'r Tîm Cefnogi Awtistiaeth), ac i ddarganfod sut mae'r tîm yn cefnogi dysgwyr mewn ysgolion. Bydd cyfle i rieni gael paned a chlonc ar ôl y sesiwn hefyd.

Ble? Y Nyth, Treganna

Pryd? Dydd Gwener, 14eg o Fawrth (9.00yb – 10.00yb)

[Cofrestrwch yma](#)

Clybiau ar ôl hanner tymor

Dyma restr o glybiau allgyrsiol yr ysgol ar ôl hanner tymor. Mae'r clybiau ar agor i bawb, ond cofiwch gofrestru'ch plentyn ar Parent Pay. Bydd y clybiau yn cychwyn ar y 3ydd o Fawrth ac yn gorffen am 4.30yh.

Dydd Llun - Clwb Gweu yn parhau

Dydd Mercher - Clwb ffilm (BI 4)

Dydd Mercher - Clwb Rygbi (BI 5 a 6)

Dydd Mercher - Can Actol (BI 6)

Dydd Iau - Clwb Garddio (BI 3 a 4)

Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.



Hwyl Fawr



Goodbye

Patrwm iaith

Ar ôl hanner tymor, dyma patrwm iaith yr wythnos

Wyt ti'n gwybod...?

Ydych chi'n gwybod...?

Ydw/ Nac ydw

Oeddwn/ Nac oeddwn

Her

Credwch chi fyth bod...

Testun trafod yr wythnos

Dydd neu nos?

Cân yr wythnos

Dadleoli - Ail gyfle

Idiom yr wythnos

Mynd dros ben llestri

